*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 93(3A) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) ("Deddf 1990"). Maent yn gwneud darpariaeth ynghylch cytundebau partneriaeth dreftadaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yng Nghymru.

Mae Deddf 1990 yn amddiffyn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a all gynnwys adeiladau, strwythurau neu adeileddau. Mae Deddf 1990 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio rhestr o adeiladau o'r fath yng Nghymru. Dim ond os ydynt wedi eu hawdurdodi gan yr awdurdod cynllunio lleol neu gan Weinidogion Cymru y caniateir i fathau penodol o waith gael eu cyflawni. Yr enw ar yr awdurdodiad hwn yw "cydsyniad adeilad rhestredig" ac fe'i rhoddir o dan Ran 1 o Ddeddf 1990.

Diwygiodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4) Ddeddf 1990 i gyflwyno "cytundeb partneriaeth dreftadaeth". Cytundeb yw hwn rhwng perchennog adeilad rhestredig yng Nghymru a naill ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru neu'r ddau. Gall fod partïon ychwanegol hefyd i gytundeb partneriaeth treftadaeth, gan gynnwys unrhyw berson sydd â gwybodaeth arbennig am yr adeilad rhestredig neu sydd â buddiant ynddo, yn gyffredinol neu'n benodol. Mae adran 26M(2) o Ddeddf 1990 yn darparu y caiff cytundebau

partneriaeth dreftadaeth ymwneud â mwy nag un adeilad rhestredig ar yr amod bod naill ai'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru yn barti iddo ynghyd â pherchennog i'r adeilad neu'r rhan.

Caiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth roi cydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 8(1) o Ddeddf 1990 mewn cysylltiad â gwaith penodedig ar gyfer addasu neu ymestyn yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef. Gall y cydsyniad hwnnw fod yn ddarostyngedig i amodau.

Mae adran 26M(3) o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch agweddau penodol ar gynnwys cytundebau partneriaeth dreftadaeth a'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar gytundebau a'u terfynu.

Mae rheoliad 3 yn nodi materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth. Maent yn cynnwys pethau fel digon o fanylion i adnabod yr adeilad y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef, hyd y cytundeb a darpariaeth i'r partïon gytuno i ddod â'r cytundeb, neu ddarpariaeth ynddo, i ben ar ddyddiad cynharach na'r dyddiad a bennwyd yn y cytundeb.

Mae rheoliad 4 yn rhoi enghreifftiau o amodau y gellir eu gosod ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth.

Mae rheoliadau 5 i 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Mae rheoliad 6 yn nodi'r gofynion ymgynghori y mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gydymffurfio â hwy cyn iddo ymrwymo i gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu amrywiad iddo. Maent yn cynnwys ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac unrhyw breswylydd hirdymor ar y tir nad yw'n barti arfaethedig i'r cytundeb. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol roi cyhoeddusrwydd i gytundebau partneriaeth dreftadaeth drafft neu amrywiadau drafft ar gytundebau mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rheini'n cynnwys sicrhau bod y cytundeb neu'r amrywiad arfaethedig ar gael i'r cyhoedd edrych arno ac ar wefan am nifer penodedig o ddiwrnodau. Yn yr un modd, rhaid dangos hysbysiad o'r cytundeb neu'r amrywiad arfaethedig ger yr adeilad a'i gyflwyno i bartïon penodol sydd â buddiant. Rhaid caniatáu o leiaf 21 o ddiwrnodau i sylwadau gael eu gwneud

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i effaith unrhyw waith ar ddymunoldeb cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig

wrth iddynt ystyried a ddylid gwneud y cytundeb neu ei amrywio.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gadw rhestr o'r cytundebau y mae'n barti iddynt a bod rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ymrwymo i gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu amrywiad, gynnwys cyfeiriad at y cytundeb neu'r amrywiad mewn rhestr, a gyhoeddir drwy ddulliau electronig, a chyflwyno copi i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliadau 10 i 12 yn darparu i awdurdodau cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath, heb gytundeb partïon eraill y cytundeb. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru cyn y gall fod yn effeithiol.

Mae rheoliad 13 yn darparu ar gyfer gweithdrefn ar gyfer arfer y pwerau terfynu hynny, sef mai dim ond pan fyddant yn cyflwyno hysbysiad o'u bwriad i bartïon â buddiant y caiff yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, wneud hynny. Mae gan y partïon hynny 28 o ddiwrnodau i ofyn am gyfle i gael eu gwrando gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 14 yn darparu ar gyfer digollediad y gall fod yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ei dalu ar ôl iddo gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i derfynu drwy gymhwyso adran 28 o Ddeddf 1990 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Os yw'r hysbysiad yn darparu bod unrhyw waith a awdurdodwyd yn flaenorol yn peidio â bod wedi ei awdurdodi felly, a bod parti i'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth wedi mynd i wariant penodedig neu wedi dioddef colled neu ddifrod fel arall, gall fod yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ddigolledu'r person hwnnw.

Mae adran 26M(5)(a) o Ddeddf 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn datgymhwyso, neu'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu gydag addasiadau neu hebddynt, unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau penodedig yn y Ddeddf honno at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae rheoliad 15 yn darparu bod y darpariaethau yn Neddf 1990 a restrir yn Atodlen 1 wedi eu datgymhwyso at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Mae adran 26M(5)(b) o Ddeddf 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn datgymhwyso, neu'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu gydag addasiadau neu hebddynt, ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf honno, yn ganlyniadol i'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 15. Mae rheoliad 16

yn darparu bod Deddf 1990 yn gymwys yn ganlyniadol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn y Tabl yn Atodlen 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Cadw, Llywodraeth Cymru, Plas Carew, Caerdydd, CF15 7QQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 93(3A) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 26M(3), (4) a (5)**(1)** a 93(6A)(**2**) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 93(3A)(**4**) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 a deuant i rym ar XXX.

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 26M gan adran 28(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4) ("Deddf 2016").

(**2**) Mewnosodwyd adran 93(6A) gan baragraff 26 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5). Ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**3**) 1990 p. 9.

(**4**) Mewnosodwyd adran 93(3A) gan adran 40(5) o Ddeddf 2016.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "adeilad rhestredig" yr ystyr a roddir i "*listed building*" yn adran 1(5) o Ddeddf 1990;

ystyr "amrywiad drafft" ("*draft variation*") yw amrywiad drafft ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth;

mae "awdurdod cynllunio lleol" i'w ddehongli yn unol â "*local planning authority*" yn Rhan 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**);

ystyr "awdurdod cynllunio lleol perthnasol" ("*relevant local planning authority*"), mewn perthynas ag adeilad rhestredig, yw awdurdod cynllunio lleol y lleolir yr adeilad neu unrhyw ran ohono yn ei ardal;

ystyr "cydsyniad adeilad rhestredig" ("*listed building consent*") yw cydsyniad o dan adran 8(1) o Ddeddf 1990;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**2**);

ystyr "cytundeb drafft" ("*draft agreement*") yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft;

ystyr "cytundeb partneriaeth dreftadaeth" ("*heritage partnership agreement*") yw cytundeb y mae awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru wedi ymrwymo iddo, o dan adran 26L o Ddeddf 1990;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas ag adeilad rhestredig neu ran o adeilad o'r fath, yw person sydd am y tro—

(a) yn berchennog yr ystâd mewn cysylltiad â'r ffi syml yn yr adeilad neu'r rhan, neu

(b) â hawl i denantiaeth ar yr adeilad neu'r rhan sy'n cael ei rhoi neu ei hymestyn am gyfnod o flynyddoedd y mae nifer penodol ohonynt heb fod yn llai na 7 mlynedd yn dal heb ddod i ben.

ystyr "preswylydd hirdymor" ("*long term resident*") yw person sydd â hawl i denantiaeth sy'n cael ei rhoi neu ei hymestyn am gyfnod o flynyddoedd y mae nifer penodol ohonynt heb fod yn llai na dwy flynedd yn dal heb ddod i ben.

(2) Pan fo—

---

(**1**) 1990 p. 8.
(**2**) 2000 p. 7.

(a) cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyflwyno neu roi hysbysiad neu ddogfen arall i unrhyw berson at ddibenion y Rheoliadau hyn, a

(b) bod y cyfathrebiad yn dod i law'r derbynnydd y tu allan i oriau busnes y person hwnnw,

cymerir ei fod wedi dod i law ar y diwrnod gwaith nesaf; ac at y diben hwn ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc neu ŵyl gyhoeddus arall.

**Materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth**

**3.**—(1) Rhaid i gytundeb partneriaeth dreftadaeth gynnwys—

(a) digon o fanylion i adnabod yr adeilad y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef, gan gynnwys plan;

(b) unrhyw blaniau a lluniadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r gwaith a gwmpesir gan y cytundeb;

(c) y dyddiad y mae'r cytundeb yn cael effaith ohono;

(d) hyd y cytundeb;

(e) darpariaeth i'r partïon gytuno i gwtogi (ond nid ymestyn) hyd y cytundeb (yn ddarostyngedig i derfyniad cynharach drwy orchymyn o dan reoliad 10 neu reoliad 11).

(2) Gweler hefyd yr adrannau a ganlyn yn Neddf 1990—

(a) adran 26L(8) (pethau eraill y caniateir eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth);

(b) adran 26M(1) (yn gwneud darpariaeth atodol ynglŷn â gofynion partneriaeth dreftadaeth).

**Amodau ar gydsyniad adeilad rhestredig a geir mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth**

**4.**—(1) Mae'r amodau y caiff cytundeb partneriaeth dreftadaeth eu gosod ar gydsyniad adeilad rhestredig yn cynnwys amodau mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) cadw nodweddion penodol i'r adeilad, naill ai fel rhan ohono neu ar ôl eu hollti oddi wrtho;

(b) cywiro unrhyw ddifrod a achoswyd i'r adeilad gan y gwaith, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau;

(c) ailadeiladu'r adeilad neu unrhyw ran ohono ar ôl i unrhyw waith gael ei gyflawni, gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol cyn belled ag y bo'n ymarferol a chydag unrhyw

addasiadau i'r tu mewn i'r adeilad a bennir yn yr amodau.

(2) Caniateir gosod amod hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion penodedig yn y gwaith ar adeilad gael eu cymeradwyo wedyn gan awdurdod cynllunio lleol neu, yn achos cytundeb y mae Gweinidogion Cymru yn barti iddo, sy'n pennu ai awdurdod cynllunio lleol ynteu hwythau sydd i gytuno ar y manylion hyn.

**Ymgynghori a chyhoeddusrwydd ynglŷn â chytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft ac amrywiad drafft: cyffredinol**

**5.**—(1) Mae rheoliadau 6 a 7 yn gosod gofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy—

(a) cyn i awdurdod cynllunio lleol wneud cytundeb partneriaeth dreftadaeth, neu

(b) cyn i awdurdod cynllunio lleol amrywio cytundeb presennol er mwyn rhoi neu amrywio cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith a fyddai'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

(2) Mae rheoliad 9 yn nodi gofynion cyhoeddusrwydd eraill.

**Ymgynghori ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft neu amrywiad drafft**

**6.**—(1) Dyma'r gofynion ymgynghori y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(1).

(2) Cyn ymrwymo i gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu ei amrywio, rhaid i awdurdod cynllunio lleol—

(a) anfon copi o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ar gytundeb partneriaeth dreftadaeth (yn ôl y digwydd)—

(i) at Weinidogion Cymru, a

(ii) at unrhyw breswylydd hirdymor mewn adeilad rhestredig y mae'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft yn ymwneud ag ef, a

(b) gwahodd sylwadau gan y personau hynny o fewn cyfnod penodedig o 21 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft i law.

(3) Ond nid yw'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gydymffurfio â pharagraff (2) mewn perthynas â'r canlynol—

(a) person sy'n barti arfaethedig i'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft, neu

(b) Gweinidogion Cymru os oes awdurdod lleol arall wedi cydymffurfio â pharagraff (2) mewn perthynas â hwy a'r un cytundeb drafft neu amrywiad drafft.

(4) Yn ystod y cyfnod ymgynghori a bennir o dan baragraff (2)(b), caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol a wahoddodd sylwadau fod arnynt angen rhagor o amser i ystyried y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft.

(5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hysbysiad a bennir ym mharagraff (4), estynnir y cyfnod ymgynghori ym mharagraff (2)(b) am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

**Gofynion cyhoeddusrwydd: cytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft neu amrywiad drafft**

**7.**—(1) Dyma'r gofynion cyhoeddusrwydd y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(1).

(2) Cyn ymrwymo i gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu ei amrywio, rhaid i awdurdod cynllunio lleol—

(a) trefnu bod y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ar gael i'r cyhoedd edrych arno, ynghyd â manylion ynghylch sut y caniateir cyflwyno sylwadau ac erbyn pa bryd—

(i) mewn man yn yr ardal y mae'r adeilad rhestredig yr effeithir arno wedi ei leoli ynddi;

(ii) ar oriau rhesymol;

(iii) am o leiaf 21 o ddiwrnodau;

(b) cyhoeddi ar ei wefan am o leiaf 21 o ddiwrnodau—

(i) crynodeb o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft,

(ii) cyfeiriad neu leoliad yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft yn ymwneud ag ef,

(iii) datganiad bod y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn y man ac ar yr adegau a nodir,

(iv) manylion am sut y caniateir cyflwyno sylwadau, a

(v) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i sylwadau ddod i law;

(c) dangos hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn is-baragraff (b) am o leiaf 21 o ddiwrnodau ar yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft yn ymwneud ag ef neu yn agos ato;

(d) rhoi copi o'r hysbysiad i unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn briodol am fod ganddo wybodaeth arbennig am yr adeilad rhestredig neu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn fwy cyffredinol neu ddiddordeb arbennig yn y rhain, ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo paragraff (7) yn gymwys.

(3) Ond nid yw'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gydymffurfio â'r canlynol—

(a) paragraff (2)(c) os oes awdurdod cynllunio lleol arall wedi cydymffurfio â'r paragraff hwnnw mewn perthynas â'r un cytundeb drafft neu'r un amrywiad drafft;

(b) paragraff (2)(d) mewn cysylltiad ag unrhyw berson sy'n barti arfaethedig i'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft neu sydd wedi cael hysbysiad gan awdurdod cynllunio lleol arall mewn perthynas â'r un cytundeb drafft neu'r un amrywiad drafft.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gyhoeddi gwybodaeth—

(a) sy'n gyfrinach fasnach,

(b) y mae ei datgelu yn debygol o niweidio buddiant masnachol unrhyw berson,

(c) y byddai ei datgelu'n gyfystyr â thor cyfrinachedd y gallai unrhyw berson ddwyn achos llys yn ei gylch, neu

(d) y gwaherddir ei datgelu gan unrhyw ddeddfiad, o dan unrhyw ddeddfiad neu gan orchymyn llys.

(5) Pan fo'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(c) wedi ei ddileu, wedi ei guddio neu wedi ei ddifwyno cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau, a hynny heb fod bai ar yr awdurdod a'i dangosodd, trinnir yr awdurdod fel pe bai wedi cydymffurfio â'r paragraff hwnnw os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad, ac, os oes angen, i'w amnewid.

(6) Rhaid i ddyddiad a bennir yn unol â pharagraff (2) fel y dyddiad i sylwadau ddod i law ynghylch cytundeb drafft neu amrywiad drafft fod—

(a) mewn perthynas â threfnu bod y cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ar gael i'r cyhoedd edrych arno o dan baragraff (2)(a), o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y trefnir ei fod ar gael o dan y paragraff hwnnw;

(b) mewn perthynas â chyhoeddi crynodeb o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft ar eu gwefan o dan baragraff (2)(b), o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cyhoeddir y crynodeb;

(c) mewn perthynas â dangos hysbysiad o dan baragraff (2)(c), o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dangosir yr hysbysiad;

(d) mewn perthynas â rhoi copi o’r hysbysiad o dan baragraff (2)(d), o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(7) Pan fo’r awdurdod cynllunio lleol yn berchennog ar adeilad neu adeiladau rhestredig y mae’r cytundeb drafft neu’r amrywiad drafft yn ymwneud â hwy, mae paragraff (8) yn gymwys.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o’r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(c) i unrhyw berson y mae’n ymddangos iddynt ei fod yn briodol am fod ganddo wybodaeth arbennig am yr adeilad rhestredig neu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn fwy cyffredinol neu ddiddordeb arbennig yn y rhain, oni bai bod y person hwnnw’n barti arfaethedig i’r cytundeb drafft neu i’r amrywiad drafft.

**Ystyried a ddylid gwneud cytundeb**

**8.** Wrth ystyried a ddylid gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth i roi cydsyniad adeilad rhestredig, rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol perthnasol neu Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i effaith unrhyw waith ar ddymunoldeb cadw’r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.

**Gofyniad cyhoeddusrwydd: rhestr a chopïau o gytundebau partneriaeth dreftadaeth ac amrywiadau**

**9.**—(1) Dyma’r gofyniad cyhoeddusrwydd y cyfeirir ato yn rheoliad 5(2).

(2) Rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol—

(a) cyhoeddi rhestr, drwy ddulliau electronig, o’r holl gytundebau partneriaeth dreftadaeth cyfredol y maent yn barti iddynt, a

(b) cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl gwneud cytundeb partneriaeth dreftadaeth, neu amrywio cytundeb presennol er mwyn rhoi neu amrywio cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith a fyddai’n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig—

   (i) ychwanegu’r cytundeb neu’r amrywiad at y rhestr, a

   (ii) cyflwyno copi o’r cytundeb neu’r amrywiad i Weinidogion Cymru.

**Terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol**

**10.**—(1) Caiff awdurdod cynllunio lleol, drwy orchymyn, derfynu unrhyw gytundeb partneriaeth dreftadaeth y mae'n barti iddo neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath ar ddyddiad cynharach na'r dyddiad pryd y byddai fel arall yn peidio â chael effaith, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (5).

(2) Ni chaiff yr awdurdod cynllunio lleol wneud gorchymyn o dan baragraff (1) pan fo'n berchennog ar yr adeilad rhestredig y mae'r cytundeb yn ymwneud ag ef.

(3) Caiff gorchymyn a wneir o dan y rheoliad hwn gynnwys darpariaeth atodol, cysylltiedig, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(4) Nid yw gorchymyn a wneir gan yr awdurdod cynllunio lleol o dan baragraff (1) yn dod yn effeithiol oni chaiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 12(4).

(5) Caiff gorchymyn i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth, mewn perthynas â'r cydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd gan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn cysylltiad ag unrhyw waith, gael ei arfer unrhyw bryd cyn i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, ond nid yw'r terfyniad yn effeithio ar hynny o'r gwaith hwnnw ag a wnaed yn flaenorol.

**Terfynu cytundeb partneriaeth treftadaeth gan Weinidogion Cymru**

**11.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, derfynu unrhyw gytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath ar ddyddiad cynharach na'r dyddiad pryd y byddai fel arall yn peidio â chael effaith.

(2) Caiff gorchymyn a wneir o dan y rheoliad hwn gynnwys unrhyw ddarpariaeth atodol, cysylltiedig, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol.

(3) Caiff gorchymyn i derfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth, mewn perthynas â'r cydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd gan y cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn cysylltiad ag unrhyw waith, gael ei arfer unrhyw bryd cyn i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, ond nid yw'r terfyniad yn effeithio ar hynny o'r gwaith hwnnw ag a wnaed yn flaenorol.

**Ystyried a ddylid terfynu cytundeb**

**12.** Wrth ystyried a ddylid gwneud neu gadarnhau gorchymyn i derfynu cytundeb neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, roi sylw arbennig i effaith unrhyw waith ar ddymunoldeb

cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.

### Gweithdrefn ar gyfer terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth

**13.**—(1) Pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi gwneud gorchymyn sy'n terfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, neu pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r corff sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud y gorchymyn gyflwyno hysbysiad—

(a) i bartïon eraill y cytundeb,

(b) i breswylydd hirdymor yr adeilad hwnnw y mae'r cytundeb partneriaeth treftadaeth yn ymwneud ag ef (os nad yw'n barti i'r cytundeb), ac

(c) i unrhyw berson arall y bydd y gorchymyn yn effeithio arno yn eu barn hwy.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu cyfnod o ddim llai nag 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad, pryd y caiff unrhyw berson y'i cyflwynir iddo ofyn am gyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw a chael ei wrando ganddo.

(3) Os bydd person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gofyn felly o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac i unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n barti i'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth cyn iddynt wneud y gorchymyn neu ei gadarnhau.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau gorchymyn a gyflwynir iddynt gan awdurdod cynllunio lleol naill ai heb ei addasu neu gydag addasiadau.

### Digollediad pan derfynir cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan derfynir cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy orchymyn o dan reoliad 10 neu 11.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio lleol—

(a) yn achos gorchymyn a wneir o dan reoliad 10, yn gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio lleol a wnaeth y gorchymyn;

(b) yn achos gorchymyn a wneir o dan reoliad11, yn gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio lleol y lleolir yr adeilad neu unrhyw ran o'r adeilad sy'n arwain at y gwariant, y golled neu'r difrod yn ei ardal.

(3) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol dalu digollediad i berson os yw'r amodau ym mharagraff (4) wedi eu bodloni.

(4) Yr amodau yw—

(a) bod y person wedi mynd i wariant wrth gyflawni gwaith y mae'r terfyniad yn peri ei fod yn waith ofer, neu wedi dioddef colled neu ddifrod fel arall y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r terfyniad,

(b) bod yr hawliad yn cael ei wneud mewn ysgrifen i'r awdurdod cynllunio lleol, ac

(c) bod yr hawliad yn cael ei gyflwyno o fewn cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y terfynir y cytundeb, neu ran o'r cytundeb.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), nid oes digollediad yn daladwy o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) unrhyw waith a gyflawnwyd cyn i'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth neu ran berthnasol ohono gael ei wneud neu ei gwneud, neu

(b) unrhyw golled neu ddifrod arall (heb fod yn golled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir) sy'n deillio o unrhyw beth a wnaed neu a hepgorwyd cyn i'r cytundeb gael effaith.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r holl awdurdodau cynllunio lleol dan sylw, gyfarwyddo, pan fo awdurdod cynllunio lleol yn atebol i dalu digolledi ad o dan y rheoliad hwn, fod ganddo hawl i gael ad-daliad o'r cyfan o'r digolledi ad neu unrhyw gyfran ohono a gyfarwyddir ganddynt oddi wrth un neu ragor o awdurdodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn, mae gwariant yr eir iddo wrth baratoi planiau at ddibenion unrhyw waith, neu ar faterion tebyg eraill sy'n paratoi ar gyfer unrhyw waith, i'w gymryd fe pe bai wedi ei gynnwys yn y gwariant yr eir iddo wrth gyflawni'r gwaith hwnnw.

**Datgymhwyso Deddf 1990 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth**

**15.** Mae darpariaethau Deddf 1990 a restrir yn Atodlen 1 wedi eu datgymhwyso at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

**Cymhwyso ac addasu Deddf 1990 yn ganlyniadol**

**16.** Mae Atodlen 2 yn cymhwyso darpariaethau yn Neddf 1990 fel y maent yn gymwys at ddibenion darpariaethau a grybwyllir yn adran 26M(5)(a) o Ddeddf 1990 gyda'r addasiadau penodedig sy'n

ganlyniadol i'r darpariaethau a wneir yn rheoliadau 3, 6, 7, 9, 10, 11 a 12 neu yn Atodlen 1.

*Enw*
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

# ATODLEN 1 Rheoliad 13

| *Y ddarpariaeth yn Neddf 1990 a ddatgymhwysir* |
|---|
| Adran 16 (penderfynu ar gais) |
| Adran 17 (pŵer i osod amodau ar gydsyniad adeilad rhestredig) |
| Adran 18 (cyfyngu hyd cydsyniad adeilad rhestredig) |
| Adran 19 (cais am amrywio neu ollwng amodau) |

# ATODLEN 2 Rheoliad 14

| *Y ddarpariaeth yn Neddf 1990* | *Yr addasiad a gymhwysir at ddibenion darpariaethau eraill yn y Rheoliadau hyn* |
|---|---|
| Adran 30 (awdurdodau cynllunio lleol at ddibenion digolledriad) | Mae adran 30 yn gymwys fel pe bai—<br>(a) yn is-adran (1)(b) ac yn is-adran (2), y cyfeiriadau at "section 28" yn darllen "regulation 14 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021";<br>(b) yn is-adran (1)(b), y cyfeiriad at "section 26" yn darllen "regulation 11 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021";<br>(c) yn is-adran (1)(b), "the local planning authority who are treated as having made it under that section" yn darllen "the local planning authority in whose |

| | |
|---|---|
| | area the building or any part of the building which gives rise to the expenditure, loss or damage is situated”;<br>(d) yn is-adran (1), y geiriau ar ôl paragraff (c) wedi eu hepgor. |
| Adran 31 (darpariaethau cyffredinol ynghylch digollediad am ddibrisiant o dan y Rhan hon) | Mae adran 31 yn gymwys fel pe bai yn is-adrannau (2) a (4), y cyfeiriadau at “section 28” yn darllen “regulation 14 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021”. |
| Adran 62 (dilysrwydd gorchmynion a phenderfyniadau penodol) | Mae adran 62 yn gymwys fel pe bai yn is-adran (1)(a)—<br>(a) y cyfeiriad at “section 23” yn darllen “regulation 10 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021”, a<br>(b) y cyfeiriad at adran 26 yn gyfeiriad at reoliad 11 o Reoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021. |
| Adran 63 (achos i amau dilysrwydd gorchmynion, penderfyniadau a chyfarwyddydau eraill) | Mae adran 63 yn gymwys fel pe bai—<br>(a) yn is-adran (3A)(a)—<br>(i) “section 23” yn darllen “regulation 10 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021”, a<br>(ii) “that takes effect under section 25 |

| | |
|---|---|
| | without confirmation" wedi ei hepgor,<br>(b) yr is-adran (5) bresennol wedi ei hailrifo fel is-adran (5)(a), ac<br>(c) "(5)(b) References in this section to sections of this Act are to those sections as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (5)(a). |
| Adran 88 (hawliau mynediad) | Mae adran 88 yn gymwys fel pe bai—<br>(a) yn is-adran (2)(a), cyfeiriadau at yr adrannau a ganlyn yn Neddf 1990 yn gyfeiriadau at y rheoliadau a ganlyn yn y Rheoliadau hyn—<br>(i) adran 23 – at reoliad 10;<br>(ii) adran 26 – at reoliad 11,<br>(b) yn is-adran (4), y cyfeiriad at "section 28" yn darllen "regulation 14 of the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021", ac<br>(c) yn is-adran (6), "(as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl "section 88B(8)". |

| | |
|---|---|
| Adran 88A (gwarantau i fynd ar dir) | Mae adran 88A yn gymwys fel pe bai yn is-adran (1)(a) "as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl "section 88". |
| Adran 88B (hawliau mynediad: darpariaethau atodol) | Mae adran 88B yn gymwys fel pe bai—<br>(a) yn is-adrannau (1), (8) a (9), "(as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl "section 88" ym mhob lle y mae'n digwydd;<br>(b) yn is-adran (2), "(both as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021)" wedi ei fewnosod ar ôl "section 88 or 88A)". |
| Adran 88C (hawliau mynediad: tir y Goron) | Mae adran 88C yn gymwys fel pe bai yn is-adran (1) "(as applied by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl "Section 88". |
| Adran 89 (cymhwyso darpariaethau cyffredinol penodol yn y brif Ddeddf) | Mae adran 89 yn gymwys fel pe bai "as applied by the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl "for the purposes of this Act". |

| | |
|---|---|
| Adran 90 (darpariaethau ariannol) | Mae adran 90 yn gymwys fel pe bai—<br>(a) cyfeiriadau at yr adrannau a ganlyn yn gyfeiriadau at y rheoliadau a ganlyn yn y Rheoliadau hyn—<br>(i) adran 16 – at reoliad 8;<br>(ii) adran 17 – at reoliad 4;<br>(iii) adran 24 – at reoliad 13;<br>(iv) adran 26 – at reoliad 11;<br>(v) adran 28 – at reoliad 14, a<br>(b) "(9) References in this section to other sections of this Act are to those sections as may be applied with modifications by regulation 16 of, and Schedule 2 to, the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021" wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (8). |
| Adran 91 (dehongli) | Mae adran 91(1) i (5) yn gymwys i'r Rheoliadau hyn fel maent yn gymwys i Ddeddf 1990 ac fel y cymhwysir Deddf 1990 at ddibenion y Rheoliadau hyn, ond nid yw hyn yn effeithio ar ystyr "perchennog" yn rheoliad 2(1). |
| Atodlen 3 | Mae Atodlen 3 yn gymwys fel pe bai hi ym mharagraff 2(6), ar ôl "section 62" yn darllen "as applied by the Listed Buildings (Heritage Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2021)". |